**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Pwyllgor Llywodraethu ac Awdit held at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Iau, 13eg Hydref, 2022 at 2.00 pm**

| | |
|---|---|
| **CYNGHORWYR YN BRESENNOL:** | Andrew Blackmore (Cadeirydd)<br>Cynghorydd Sirol County Councillor Peter Strong (Is-Gadeirydd)<br><br>Martin Veale and Colin Prosser<br>Cynghorydd Sirol: Ian Chandler, John Crook, Tony Easson, Malcolm Lane, Phil Murphy and Laura Wright |

**SWYDDOGION YN BRESENNOL:**

| | |
|---|---|
| Andrew Wathan | Prif Archwilydd Mewnol |
| Paul Matthews | Prif Weithredwr |
| Peter Davies | Prif Swyddog, Adnoddau |
| Wendy Barnard | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Charlotte Owen | Swyddog Archwilio Cymru |
| Richard Jones | Rheolwr Perfformiad |
| Jonathan Davies | Rheolwr Cyllid Cyfrifeg Canolog |
| Rachel Freitag | Swyddog Archwilio Cymru |
| Richard Cope | Rheolwr Uned Cludiant Teithwyr |
| Deb Hill-Howells | Pennaeth Gwasanaethau Landlord Masnachol ac Integredig |
| Matthew Gatehouse | Pennaeth Polisi a Llywodraethiant |

**YMDDIHEURIADAU:**

Cynghorydd Sirol

1. **Datganiadau o Fuddiant**

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

2. **Fforwm Agored i'r Cyhoedd**

Nid oedd unrhyw aelodau o'r cyhoedd yn bresennol.

3. **Nodi'r Rhestr Weithredu o'r cyfarfod diwethaf**

Nodwyd y rhestr weithredu o'r cyfarfod diwethaf.

1. **Cydweithrediadau Allweddol**: Rhoddodd y Rheolwr Perfformiad a Mewnwelediad Data ddiweddariad i'r Pwyllgor bod rhestr ddrafft o gydweithrediadau allweddol yn barod i'w rhannu ag Archwilio Mewnol a'r Tîm Arweinyddiaeth Strategol, cyn ei ychwanegu at y Blaengynllun Gwaith.

**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Pwyllgor Llywodraethu ac Awdit held at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Iau, 13eg Hydref, 2022 at 2.00 pm**

Statws Gweithredu: Ar agor (Argymhelliad i Gau - 24ain Tachwedd 2022)

2. **Croesgyfeirio adroddiadau gyda Chylch Gorchwyl y Pwyllgor:** Bydd y Prif Archwilydd Mewnol yn adolygu adroddiadau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn erbyn cylch gorchwyl y Pwyllgor. Wrth symud ymlaen, bydd yn sicrhau bod adroddiadau ar y Blaengynllun Gwaith yn cynnwys croesgyfeiriadau.

Cam Gweithredu: Ar agor (Yn parhau tan Fawrth 2023)

3. **Adroddiad Alldro Archwilio Mewnol**:

i) Gwahodd rheolwyr gwasanaeth i'r cyfarfod nesaf o ran: Barn Gyfyngedig (Teithio Rhatach) a Fflyd (Iechyd a Diogelwch a Rheoli Gyrwyr): Mae'r eitem hon ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod heddiw.

Statws Gweithredu: Wedi cau

ii) Darparu ffigyrau Twyll (nid canrannau): Cynghorodd y Prif Archwilydd Mewnol bod y wybodaeth wedi cael ei choladu a sylwebaeth wedi cael ei hychwanegu i'w dosbarthu i Aelodau'r Pwyllgor.

Statws Gweithredu: Ar agor (Argymhelliad i Gau – 24ain Tachwedd 2022)

4. **Rhestr Weithredu:** Mae'r rhestr weithredu wedi cael ei diwygio

Statws Gweithredu: Wedi cau

5. **Datganiad Cyfrifon:**

i) Dywedodd y Pennaeth Cyllid Cynorthwyol Dros Dro fod y gwelliannau wedi'u gwneud a bydd y ddogfen yn cael ei chwblhau gan y Pwyllgor hwn yn y cyfarfod nesaf.

Statws Gweithredu: Ar agor (Argymhelliad i Gau – 24ain Tachwedd 2022)

ii) Cynllun terfyn cyflymder 20mya ac argaeledd ariannu ar gyfer gwrthdroad y cynllun: Bydd ymateb yn cael ei ddosbarthu erbyn diwedd yr wythnos.

Cam Gweithredu: Ar agor (Argymhelliad i Gau – 24ain Tachwedd 2022)

6. **Diweddariad ac Amserlen Chwarterol Archwilio Cymru:** Mae adroddiad Sicrwydd ac Asesiad Risg Archwilio Cymru ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod heddiw.

Statws Gweithredu: Wedi cau

7. **Adroddiad Llamu Ymlaen Archwilio Cymru:**

i) Mae'r Prif Archwilydd Mewnol a'r Dirprwy Brif Weithredwr yn cwrdd â'r Cadeirydd; bydd trefniadau craffu ar gyfer y bobl a'r strategaethau asedau yn cael eu trafod.

Statws Gweithredu: Ar agor.

ii) Bydd y Cadeirydd yn trafod y cynnydd yn erbyn cerrig milltir allweddol dros dro yn y cyfarfod uchod.

Statws Gweithredu: Ar agor.

iii) Diweddaru a chwblhau'r Cynllun Corfforaethol a Chymunedol: Eglurodd y Rheolwr Mewnwelediad Perfformiad a Data fod y Cynllun ar agenda'r Cabinet yr wythnos nesaf a bydd yn cael ei ystyried gan y Cyngor ar 27ain Hydref 2022. Mae'r Cynllun yn gosod cyfeiriad cychwynnol i'w ddatblygu ymhellach. Mae disgwyl i'r Cynllun llawn gael ei gyhoeddi yn gynnar yn 2023 ochr yn ochr â'r gyllideb.

Statws Gweithredu: Ar agor.

**8.** Asesiad Risg Strategol Awdurdod Cyfan

Roedd y Cadeirydd yn cynnig cymorth ar y camau a restrir yn y cyfarfod olaf i'w cau erbyn diwedd y flwyddyn galendr. Esboniodd y Rheolwr Perfformiad a Mewnwelediad Data y bydd fformat diwygiedig y Gofrestr Risg yn ystyried y sylwadau a wnaed a bydd fersiwn ddrafft yn cael ei rhannu gyda'r Cadeirydd.

Mae'r risg Tai wedi cael ei ail-asesu fel un "Uchel". Mae'r gofrestr risg wedi ei diwygio yn unol â hynny.

Statws Gweithredu: Ar agor (Argymhelliad i Gau – 24ain Tachwedd 2022)

**9. Trefnu cyfarfodydd yn nes at ddiwedd y chwarteri:** Wedi'i dynnu o'r rhestr weithredu.

Statws Gweithredu: Wedi cau

**4. <u>Asesiad Risg Gwrth-Lwgrwobrwyo</u>**

Rhoddodd y Dirprwy Brif Weithredwr gyflwyniad ar y trefniadau sydd mewn lle ar gyfer gwrth-dwyll, llwgrwobrwyo a llygredd. Cadarnhaodd y Prif Archwilydd Mewnol fod Archwiliad Mewnol wedi ystyried adroddiad olrhain CIPFA a'r dadansoddiad data er mwyn nodi twyll allweddol yn genedlaethol, eu perthnasedd i Sir Fynwy ac i sicrhau bod lliniaru priodol ar waith. Yn dilyn y cyflwyniad, gwahoddwyd cwestiynau ac adborth:

- Gofynnodd Aelod am risg seibr, ac yn benodol:
  - os oes hyfforddiant staff a chyrsiau gloywi ar gael;
  - os yw'n orfodol i staff perthnasol;
  - sut mae proffil gwrth-dwyll, llwgrwobrwyo a llygredd yn cael ei godi gyda staff; ac

- os oes polisi chwythu'r chwiban.

  Cadarnhaodd y Dirprwy Brif Weithredwr fodolaeth polisi chwythu'r chwiban; sy'n cael ei gyfathrebu i staff wrth ymsefydlu. Derbyniwyd bod yr hyfforddiant yn waith sydd ar y gweill, hefyd y radd y mae'n orfodol iddi. Mae gwaith ar y gweill i gyflwyno system rheoli dysgu newydd er mwyn asesu anghenion hyfforddiant unigol, gan gynnwys hyfforddiant gorfodol ar gyfer pob rôl.

  Dywedodd y Prif Archwilydd Mewnol wrth y Pwyllgor fod yr hyfforddiant drafft ar gyfer gwrth-dwyll, llwgrwobrwyo a llygredd wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor blaenorol a'i fod wedi'i gyflwyno i staff Archwilio Mewnol a Chaffael. Mae angen mireinio pellach cyn ei gyflwyno ymhellach i'r holl staff perthnasol. Mae'r Polisi Gwrth-dwyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd ar gael ar y Fewnrwyd a bydd ar y dudalen Archwilio Mewnol ar Yr Hyb. Mae'r Polisi Chwythu'r Chwiban ar gael ar Yr Hyb pe bai aelod o staff yn dymuno adrodd am bryderon. Bydd yr hyfforddiant sefydlu yn cynnwys hyfforddiant gwrth-dwyll, llwgrwobrwyo a llygredd ar-lein.

  O ran risg seibr, nododd y Dirprwy Brif Weithredwr fod hyn wedi'i gynnwys yn y Gofrestr Risgiau Strategol. Mae adroddiad blynyddol ar Reoli Seiberddiogelwch ar y Blaengynllun Gwaith a bydd yr adroddiad blaenorol ar gael yn ddiogel i aelodau'r pwyllgor.

- Gofynnodd Aelod a oes fetio manwl ar gyfer staff allweddol. Esboniodd y Dirprwy Brif Weithredwr fod gwiriadau diogelu yn cael eu gwneud drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (y GDG). Does dim gwiriadau ariannol na gwiriadau ar gyfer gweithgarwch troseddol. Bydd y Dirprwy Brif Weithredwr yn cysylltu â'r Aelod y tu allan i'r cyfarfod i drafod ymhellach.

- Holodd Aelod am unrhyw fuddion neu effaith ar gaffael yn sgil y cydweithrediad â Chyngor Dinas Caerdydd. Esboniodd y Dirprwy Brif Weithredwr ei fod yn profi i fod yn gydweithrediad da sydd â gallu ac arbenigedd gwell. Mae cynghorau eraill yn y rhanbarth bellach yn ystyried yr un trefniant. Eglurwyd bod y Pwyllgor Craffu Perfformiad a Throsolwg yn craffu ar y strategaeth gaffael. Esboniodd y Prif Archwilydd Mewnol fod archwiliadau'n cynnwys gwiriadau ar gydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau'r cyngor, gan gynnwys y Rheolau Gweithdrefn Contractau a'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol.

- Holodd Aelod os oes canllaw sy'n hawdd ei ddefnyddio ar gyfer codi pryderon (gan gynnwys proses i benderfynu ar lefel y pryder). Cafodd y broses i aelodau'r cyhoedd godi pryderon ei gwestiynu. Dywedodd y Dirprwy Brif Weithredwr wrth y Pwyllgor y bydd y polisi yn cael ei ddiweddaru'r flwyddyn ariannol hon i gynnwys arweiniad syml. Esboniodd y Prif Archwilydd mewnol fod sawl ffordd y mae honiad yn cael ei adrodd. Yn aml bydd pryderon yn cael eu gwneud yn uniongyrchol iddo. Bydd asesiad o ran cynnwys yn cael ei wneud. Os yn briodol, bydd atgyfeiriad uniongyrchol yn cael ei wneud i'r Heddlu. Cafodd yr aelodau wybod y gallan nhw wneud pryderon yn ymwneud â llwgrwobrwyo, twyll, neu lygredd i'r Prif Archwilydd Mewnol. Caiff pob Aelod newydd eu gwneud yn ymwybodol o'r llwybr atgyfeirio hwn.

Ystyriodd y Pwyllgor agwedd y Cyngor at wrth-lwgrwobrwyo, twyll, a llygredd. Ar y cyfan, ystyriwyd bod y trefniadau'n effeithiol. Cymharol isel yw'r achosion o dwyll, ond nid oes lle i laesu dwylo yn enwedig o ran seiberddiogelwch.

**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Pwyllgor Llywodraethu ac Awdit held at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Iau, 13eg Hydref, 2022 at 2.00 pm**

**5. Archwilio Cymru: Adolygiad Sicrwydd ac Asesu Risg ac Ymateb Rheoli**

Cyflwynodd Swyddog Archwilio Cymru Adolygiad Sicrwydd ac Asesu Risg Archwilio Cymru o Gyngor Sir Fynwy. Darparwyd Ymateb Rheoli'r Cyngor gan y Rheolwr Perfformiad a Mewnwelediad Data. Ar ôl cyflwyno'r adroddiad ac ymateb Rheolaeth y Cyngor, gwahoddwyd cwestiynau:

- Holodd Aelod argymhellion y strategaeth sero net yn enwedig yr elfennau sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol newydd, gyda dyddiad cwblhau arfaethedig o Orffennaf 2023. Cwestiynwyd faint oedd wedi ei ymgorffori yn y cynllun dros dro a beth sydd i'w ddatblygu ar gyfer y cynllun hirach, a strategaeth ariannol tymor canolig. Ymatebodd y Pennaeth Polisi, Perfformiad a Chraffu y bydd y Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol newydd yn cael ei ystyried gan y Cabinet yr wythnos nesaf, ac yna gan y Cyngor. Mae'r Cynllun yn un cymharol ysgafn o ran addasu cyfeiriad y gyllideb a osodwyd gan y cyngor blaenorol. Mae llawer o syniadau a chyfraniadau eto i'w hystyried ac o bosib yn cael eu hychwanegu at y fersiwn derfynol a fydd yn cyd-fynd â'r gyllideb newydd. Tlodi ac anghydraddoldeb, a datgarboneiddio a newid yn yr hinsawdd yw'r ddwy flaenoriaeth bwysicaf a byddant yn cyd-fynd ag unrhyw gamau i ailosod y strategaeth argyfwng hinsawdd a natur, i'w hymgorffori mewn camau gweithredu pellach.
- Mewn ymateb i gwestiwn, eglurodd y Dirprwy Brif Weithredwr nad oes ymateb clir gan reolwyr i'r pwyntiau a godwyd gan Archwilio Cymru ar y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig, gan fod y Cyngor wedi darparu ymateb rheolwyr ar wahân i'r argymhellion sydd wedi'u cynnwys mewn adolygiad o gynaliadwyedd ariannol gan Archwilio Cymru, gan gadarnhau ein strategaeth ar gyfer tymor canolig cynaliadwy; gellir dosbarthu hwn ar wahân. Cadarnhaodd Swyddog Archwilio Cymru nad oes argymhellion ar gynllunio ariannol tymor canolig yn yr adroddiad hwn oherwydd bod dau gynnig yn weddill ar gyfer gwelliant yn yr adroddiad cynaliadwyedd ariannol blaenorol. Mae'r rhain yn ymwneud â chynllunio arbedion mwy cynaliadwy. Sicrhaodd swyddogion y byddai cynllun ariannol newydd tymor canolig yn cynnwys dull mwy hirdymor o gynllunio arbedion, unwaith y bydd y cyngor newydd ar waith. Bydd y cynnydd yn cael ei adolygu ddiwedd y flwyddyn ariannol hon.

- Gofynnodd Aelod o ble y tynnir ffin yr ôl troed carbon, gan gyfeirio at yr ynni a ddefnyddir yn gweithio o gartref, gan fod angen rhoi cyfrif am yr elfen honno. Dywedodd Pennaeth Gwasanaethau Datgarboneiddio, Trafnidiaeth a Chymorth bod asesiad sylfaenol carbon safonol ar gyfer pob sector cyhoeddus sy'n cynnwys cymudo. Nid yw'r matrics yn cynnwys gweithio o gartref eto ond bu trafodaeth gyda LlC ar ystyried hyn. Awgrymodd yr Aelod fod hyn yn agwedd y dylai Llywodraeth Cymru ac Archwilio Cymru ei hystyried. Cadarnhawyd y bydd diweddariad ar asesiad llinell sylfaen carbon y llynedd yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor ym mis Rhagfyr 2022.

Dywedodd y Cadeirydd fod ymateb Rheolwyr y Cyngor yn ddigonol ar ôl ystyriaeth briodol. Nododd yr heriau ariannol sylweddol sy'n wynebu'r Cyngor a allai gael effaith ar yr amserlen ar gyfer cwblhau rhai o'r camau hyn.

**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Pwyllgor Llywodraethu ac Awdit held at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Iau, 13eg Hydref, 2022 at 2.00 pm**

## 6. Adroddiad Grantiau Blynyddol

Cyflwynodd Swyddog Archwilio Cymru'r Adroddiad Grantiau Blynyddol sy'n crynhoi prif ganfyddiadau gwaith Archwilio Cymru ar hawliadau a ffurflenni ar gyfer 2020/21. Mae oedi o ran yr adroddiad eleni oherwydd gwaith Budd-dal Tai, ac yn sgil y pandemig. Yn dilyn cyflwyno'r adroddiad, gwahoddwyd cwestiynau a sylwadau:

- Gofynnodd Aelod a oedd Archwilio Cymru yn fodlon ar y cyfan â safon yr adroddiadau, ac a oedd unrhyw faterion cyffredin neu faterion a ailadroddir y dylai rheolwyr fod yn mynd i'r afael â hwy. Cadarnhawyd nad oes themâu cyson o flwyddyn i flwyddyn. Mae hawliadau budd-dal tai yn gymhleth i'w harchwilio ac yn aml, mae materion gwahanol yn ymddangos. Mae perthynas dda gyda'r Tîm Budd-daliadau ac nid oes unrhyw bryderon penodol.
- Gofynnodd Aelod a dywedwyd wrtho fod y Tîm Budd-daliadau yn cael gwybod am fudd-daliadau nad ydynt wedi'u talu, er mwyn sicrhau bod y taliadau cywir yn cyrraedd hawlwyr.
- Cyfeiriodd Aelod at yr Ardrethi Annomestig Cenedlaethol a phroblemau gan nodi eiddo gwag am daliadau. Mae gofyn i'r awdurdod wirio eiddo gwag yn barod ar gyfer ceisiadau ond, oherwydd y pandemig, nid oeddent yn gallu mynd allan i gadarnhau bod eiddo'n wag am y cyfnod cyfan sy'n cael ei hawlio. Roedd hyn yr un peth i bob awdurdod. Roedd yna ffynonellau eraill o dystiolaeth oedd yn rhoi rhywfaint o sicrwydd.
- Gan nodi pedwar o bum hawliad yn amodol, gofynnodd Aelod am y deilliannau. Mae Archwilio Cymru yn cyflwyno canfyddiadau i'r cyrff sy'n talu grantiau a'u penderfyniad nhw yw gweithredu. Cadarnhaodd y Dirprwy Brif Weithredwr fod y symiau'n ddibwys, felly roedd yn annhebygol y bydd unrhyw sylwadau adborth. Ar y cyfan, mae amgylchedd rheoli da. Bydd Swyddog Archwilio Cymru yn bwydo neges yn ôl i awgrymu bod gan gyrff dyfarnu grantiau isafswm trothwy.

Wrth grynhoi, tynnodd y Cadeirydd gysur o gasgliad yr adroddiad gan fod trefniadau cadarn ar waith a nododd fod y farn amodol dim ond oherwydd adnabod ychydig o fân doriadau technegol.

## 7. Gwahoddiad swyddogion a Phenaethiaid Gwasanaeth ynghylch Barn Gyfyngedig

Cyflwynodd y Prif Archwilydd Mewnol yr adroddiad ar farn gyfyngedig gan egluro bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi gwahodd Rheolwyr Gwasanaeth a Phenaethiaid Gwasanaeth i roi diweddariad ar gynnydd. Roedd gan y Pwyllgor yr opsiwn i dderbyn y sicrwydd a ddarparwyd, a fydd yn cael ei wirio gydag adroddiad dilynol fel y'i cynhwysir yn y Cynllun Archwilio, neu os na dderbynnir esboniadau gan y Rheolwyr, yna gall y Pwyllgor godi pryderon gyda'r Prif Swyddog a'r UDA er mwyn uwchgyfeirio'u pryderon.

### 1. Teithio Rhatach:

i) **Roedd taliadau caledi gwerth dros £46 mil wedi cael eu hawlio oddi wrth Lywodraeth Cymru nad oedd wedi cael eu hanfonebu ar eu cyfer gan y gweithredwyr na'u talu iddynt:** Esboniodd Rheolwr yr Uned Trafnidiaeth

Teithwyr fod yr adroddiad yn canolbwyntio ar Gynllun Teithio Rhatach Llywodraeth Leol sydd wedi ei ariannu gan Lywodraeth Cymru. Yn ystod y pandemig, cytunodd Llywodraeth Cymru fod gweithredwyr i'w talu ar y lefelau cyn y pandemig er mwyn darparu cynaliadwyedd gwasanaethau bysiau. Adeg yr archwiliad roedd y taliadau hyn yn cael eu talu i'r gweithredwyr. Mae'r farn gyfyngedig am daliadau o £46,000 yn cael eu hawlio o Gynllun Argyfwng Bysiau 2 (BES2) ond heb eu talu'n cysylltu â chynlluniau ariannu grantiau eraill. Roedd yr arian i gael ei ad-dalu gan weithredwyr corfforaethol Lloegr oedd yn mynd i ymrwymo i gynllun BES2, ond roedd ganddynt gyllid gan yr Adran Drafnidiaeth yn lle hynny. Ychwanegwyd at yr hawliad gan ei fod yn agos at ddiwedd y flwyddyn ariannol (anhysbys a fydden nhw'n gymwys) ac fe gafodd yr arian ei ad-dalu i Lywodraeth Cymru'n llawn. Ni fydd y mater yn digwydd eto oherwydd, o'r 1af Awst 2022, Llywodraeth Cymru wedi dychwelyd i hawliadau gwirioneddol nid rhai hanesyddol. Roedd yr arian wedi ei gronni o'r blaen am y flwyddyn ariannol hon, a nawr mae wedi ei dalu yn ôl i Lywodraeth Cymru yn Chwarter 4.

ii) **Hawliadau Chwarterol:** Esboniodd Rheolwr yr Uned Trafnidiaeth Teithwyr fod yna broblem wedi bod o ran cwblhau ffurflenni i'w hanfon at Lywodraeth Cymru ar ddiwedd y chwarter gyda dyddiad cau o'r 20fed o'r mis canlynol. Nid yw hyn yn caniatáu fawr o amser i dderbyn manylion gan y gweithredwyr a dychwelyd y ffurflen. Gan fynd i'r afael â'r sylw o ran eu cyflwyno heb lofnod y Swyddog A151, cadarnhawyd bod hyn yn gywir gan mai adroddiadau drafft oedd y rhain. Y broses archwilio yw bod y tîm cyllid yn gwirio i sicrhau bod y cyfriflyfr yn cytuno â'r datganiad. Yna gellir llofnodi'r ffurflen gan y Swyddog A151. Cyn hynny, dim ond y dychweliad terfynol a gafodd ei ddychwelyd i Lywodraeth Cymru gyda llofnod gan y Swyddog A151. Llofnodwyd y ffurflenni chwarterol gan y Pennaeth Gwasanaeth. Esboniodd e-bost gan Lywodraeth Cymru fod yr 20fed diwrnod o'r mis canlynol, ar gyfer cyflwyno ffurflenni hawlio tocynnau teithio rhatach, wedi'i ddewis oherwydd bod hanner yr awdurdodau wedi cyflwyno naill ai fersiwn derfynol neu fersiwn ddrafft o'r ffurflen hawlio o fewn yr amserlen honno, ond roedd Llywodraeth Cymru yn deall bod pryd y mae gweithredwyr yn dychwelyd y wybodaeth yn effeithio ar bryd y gall awdurdod gyflwyno ffurflen derfynol wedi'i llofnodi. Mae yna broblem o ran cael anfonebau gan weithredwyr corfforaethol. Darperir gwybodaeth am beiriannau tocynnau fel y gellir cyflwyno ffurflenni hawlio ond gall yr anfonebau ddod o swyddfa ganolog gan achosi oedi.

iii) **Llythyr Telerau ac Amodau'r Grant:** Esboniodd Rheolwr yr Uned Trafnidiaeth Teithwyr fod y llythyr grant wedi ei dderbyn yn hwyr gan Lywodraeth Cymru oherwydd ei phrosesau cwblhau mewnol. Dyfynnwyd yr enghraifft o'r llythyrau dyfarnu Grant Cymorth Prisiau Teithio Rhatach a Gwasanaethau Bysiau 2022/23 dyddiedig 30ain Awst, sydd ond newydd gael eu rhyddhau.

iv) **Dogfennau a gweithdrefnau cyfarwyddyd mewnol er mwyn sicrhau bod y cynllun yn cael ei weinyddu o fewn disgwyliadau Llywodraeth Cymru:** Esboniodd Rheolwr yr Uned Trafnidiaeth Teithwyr y byddai canllawiau o'r fath mewn grym o fewn mis.

v) **Nid yw hawliadau gweithredwyr yn cael eu cefnogi gan ddata Cerdyn Clyfar:** Eglurwyd bod problem gyda dau weithredydd nad oedd ganddynt ddata'r peiriant tocynnau oherwydd eu bod yn y broses o drosglwyddo i wahanol systemau. Mae hynny bellach wedi'i gywiro ac mae'r peiriannau tocynnau yn dychwelyd cyfradd sweip 98%. Mae gweithredwyr o Loegr yn rhedeg i mewn i Gymru ac nid yw'r peiriannau tocynnau yn gydnaws â data Cerdyn Clyfar Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol ac wedi cytuno i dderbyn taenlen gan y cwmnïau hynny yn lle'r data Cerdyn Clyfar.

vi) **Nid yw'r dyddiadau ar gyfer cyflwyno hawliadau gan weithredwyr wedi'u gosod, gan arwain at dderbyn y rhain yn hwyr yn rheolaidd:** Eglurwyd bod dyddiadau wedi eu gosod. Mater i'r gweithredwyr yw cyflwyno'r hawliadau. Daw'r hawliadau'n aml o swyddfa ganolog neu staff gwirfoddol a gall fod oedi.

vii) **Mae adroddiadau misol ar gael i helpu i nodi ymddygiad twyllodrus posibl:** Esboniodd Rheolwr yr Uned Trafnidiaeth Teithwyr fod problem pan newidiodd cyflenwr Llywodraeth Cymru o ACT i Fujitsu ac ers hynny, mae'r adroddiadau wedi cyrraedd fformat wedi'u sipio a does dim modd eu hagor. Ymchwiliwyd i hyn gyda'r Gwasanaeth Adnoddau a Rennir a Fujitsu i geisio agor yr adroddiadau. Mae'r adroddiadau'n dangos faint o bobl sydd wedi defnyddio eu cardiau dros ddeg gwaith neu eu defnyddio'n aml iawn dros gyfnod byr o amser i alluogi gwiriadau a monitro cerbydau. Y gobaith yw datrys hyn cyn diwedd mis Tachwedd. Roedd y Cadeirydd yn synnu nad oedd modd agor ffeiliau sip. Ymatebwyd bod gan awdurdodau eraill yr un broblem.

viii) **Nid oes gan yr Awdurdod raglen ar waith i arolygwyr fynd ar gerbydau a ddefnyddir i gludo teithwyr rhatach ar gyfer hapwiriadau ar brosesau a nifer y teithwyr a gludir:** Eglurwyd bod gwaith yn mynd rhagddo ar ailddechrau gwirio ond mae adnoddau'n gyfyngedig.

ix) **Nodwyd mân wallau mewn dau o'r ffigurau hanesyddol a ddefnyddiwyd o fewn cyfrifiadau 2021/22 Chwarter 1 BES2:** Mae hyn wedi cael ei gywiro.

x) **Nid oedd balansau hawlio cyffredinol sy'n ymwneud â dau chwarter cyntaf 2020/21 wedi'u setlo na'u cofnodi yn y system cyfriflyfr ariannol:** Cafodd taliadau eu newid gan Lywodraeth Cymru. Yn ystod Covid, rhoddwyd taliadau dros dro i awdurdodau i gymryd lle ôl-daliadau chwarterol er mwyn sicrhau bod llif arian. Cymodwyd y rhain ar ddiwedd y flwyddyn. Pan gafodd chwarter 1 a chwarter 2 eu gwirio, ni fydden nhw wedi cael eu cymodi bryd hynny ond byddant wedi cael eu cymodi ar ddiwedd y flwyddyn.

Diolchodd y Cadeirydd i Reolwr yr Uned Trafnidiaeth Teithwyr am yr esboniadau, gan nodi'r ddibyniaeth ar drydydd partïon mewn rhai achosion sydd wedi effeithio ar y gallu i weithredu ar argymhellion archwilio. Gwahoddwyd cwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor:

- Gofynnodd Aelod am y potensial i weithredwyr dwyllo'r system ac a fyddai'n werth chweil penodi rhywun i fonitro hyn. Cadarnhawyd bod y wybodaeth a gasglwyd yn ddefnyddiol e.e. canfuwyd bod gweithredwr wedi sweipio'r cerdyn sawl gwaith. Cafodd hynny ei adrodd i Lywodraeth Cymru.

- Holodd Aelod pam fod y llythyrau grantiau yn cael eu hanfon at y Prif Weithredwr ac fe eglurwyd bod Llywodraeth Cymru wedi cael cais i anfon y llythyrau at swyddogion yn ogystal yn y dyfodol. Gofynnwyd i'r Swyddog a oedd

yna rwystrau i gynnydd. Ategwyd bod cwrdd â'r dyddiad cau o'r 20fed o'r mis yn anodd iawn ac mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod hyn. Cyflwynir ffurflen ddrafft, heb ei llofnodi ac ni ddylid disgwyl bod y Swyddog A151 yn llofnodi ffurflen heb ei gwirio.

Cododd y Prif Archwilydd Mewnol y mater o beidio â dychwelyd yn ffurfiol cydnabod derbyn y grantiau i Lywodraeth Cymru o fewn y dyddiad cau o 21 diwrnod. Darparwyd sicrwydd y bydd y dyddiad cau yn cael ei fodloni wrth symud ymlaen. Bydd y ffurflen yn cael ei hanfon at swyddogion i sicrhau ei bod yn cael ei llofnodi o fewn y dyddiad cau 21 diwrnod.

- Dywedodd Aelod fod diffyg eglurder ynghylch a yw'r argymhellion yn cael eu derbyn ai peidio, â deall lle mae trydydd parti yn cymryd rhan. Cafodd ei holi os oes gan awdurdodau eraill yr un pryderon. Dywedodd y Prif Archwilydd Mewnol ei bod yn anodd cadarnhau safbwynt awdurdodau eraill, ond eu bod yn gweithio i'r un telerau ac amodau. Nododd y broses archwilio'r rheolaethau disgwyliedig a ddylai fod ar waith ar gyfer teithio rhatach. Cytunir ar y cwmpas gyda Rheolwr y Gwasanaeth y disgwylir iddo ddarparu'r wybodaeth briodol er mwyn galluogi archwiliad yn erbyn y gweithdrefnau a'r polisïau. Nodwyd rhai cryfderau a gwendidau, ac roedd y gwendidau yn llawer mwy na'r cryfderau a dyna'r rheswm am y farn anffafriol. Mewn cymhariaeth, dywedodd Rheolwr Uned Trafnidiaeth Teithwyr bod hanner yr awdurdodau eraill yn cael eu ceisiadau mewn pryd felly mae gwahaniaeth yno.

- Awgrymodd Aelod adolygiad o'r prosesau nad ydynt mewn lle canol y flwyddyn ariannol nesaf er mwyn iddyn nhw gael eu newid neu eu gwella. Eglurodd y Prif Archwilydd Mewnol caiff barn gyfyngedig ei dilyn i fyny mewn amgylchiadau arferol. Bu oedi cyn cwblhau'r adroddiad hwn felly nid yw adolygiad dilynol yn cael ei gynnwys yng Nghynllun Archwilio 2022/23 ond bydd yn cael ei ychwanegu at Chwarter 1 ar gyfer 2023/24, er mwyn sicrhau bod yr argymhellion wedi cael eu gweithredu ac mae gwelliannau yn y system i adrodd yn ôl i'r pwyllgor.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddog am fynychu i roi esboniadau. Mae rhai gwendidau rheoli parhaus yn amlwg, ond deellir y sefyllfa ehangach. Bydd y Pwyllgor yn edrych ymlaen at gael rhagor o ddiweddariadau maes o law

**2.** **Iechyd a Diogelwch y Fflyd a Rheoli Gyrwyr**: Croesawodd y Pennaeth Gwasanaethau Datgarboneiddio, Trafnidiaeth a Chymorth y cyfle i gynnig rhywfaint o esboniad a chyd-destun mewn perthynas â'r farn archwilio gyfyngedig, gan nodi nad oedd rhai o'r argymhellion wedi eu cytuno adeg yr adroddiad. Eglurwyd, ar adeg yr adroddiad, fod pob cyllideb yn ymwneud ag Iechyd a Diogelwch y Fflyd wedi'u datganoli i wasanaethau unigol ac roedd yn dadlau nad oedd liferi ar gael i wneud addasiadau i fynd i'r afael ag argymhellion yr adroddiad.

i. **Doedd dim rheolaeth ganolog o Iechyd a Diogelwch y Fflyd a Rheoli Gyrwyr o fewn yr Awdurdod**: Eglurwyd bod cyllidebau tîm y fflyd bellach wedi'u canoli, cytunwyd ar yr argymhelliad ac mae ar y gweill. Mae gwybodaeth newydd ar gael o ffurflenni cychwyn a therfynu, i nodi i'r tîm

trafnidiaeth y staff newydd hynny y mae angen iddynt yrru a'r rhai sydd wedi gadael eu rôl. Mae Swyddog Ymchwilio Damweiniau a Hyfforddiant newydd yn ymgymryd â sefydlu gyrwyr ac yn asesu eu gallu i ymgymryd â'r rôl. Bydd swydd Swyddog Defnyddiadau yn cael ei recriwtio. Mae gwaith ar y gweill ar ddogfennaeth ac yn gyffredinol, mae cynnydd da wedi'i wneud.

ii. **Diffyg Polisïau a Gweithdrefnau:** Mae'r rhain yn cael eu datblygu. Mae rhai polisïau a gweithdrefnau o fewn cylch gwaith Fflyd. Mae'r drefn profi cyffuriau ac alcohol yn cael ei gweithio arno gan y Rheolwr Hyfforddiant sy'n gweithio ar y polisi. Mae llawlyfr gyrwyr drafft yn destun ymgynghoriad. Y bwriad yw cyflwyno Polisi System Olrhain Cerbydau i'r Grŵp Cynghori ar y Cyd ym mis Tachwedd i fwrw ymlaen â'i fabwysiadu.

iii. **Roedd dogfennau hyfforddiant yn anghyflawn**: Adeg yr archwiliad ni chadwyd cofnodion hyfforddiant gwasanaethau unigol. Mae'r holl hyfforddiant a wnaed bellach yn cael ei gofnodi ar daenlen i'w uwchlwytho i'r porth hyfforddiant newydd pan gaiff ei gyflwyno. Ni chofnodir cofnodion unigol ar gyfer hyfforddiant mwy penodol i swyddi e.e. hyfforddiant llif gadwyn. Bydd disgwyl i reolwyr lanlwytho'r data hwnnw i'r system hyfforddiant newydd pan fydd yn weithredol.

iv. **Doedd dim Polisi Damweiniau na chanllawiau ffurfiol mewn lle**. Adeg yr adroddiad, cafodd adrodd ar ddamweiniau ei reoli gan y tîm yswiriant ac roedd trefn yn ei le. Bellach mae'n rhaid rhoi gwybod i'r Swyddog Ymchwilio Damweiniau a Hyfforddiant i'w hymchwilio ac os oes angen, trefnu neu sefydlu camau disgyblu.

v. **Nid oedd y rheswm dros olrhain cerbydau a'r defnydd o wybodaeth wedi'i ddiffinio'n glir a'i ddogfennu:** Bydd Polisi Olrhain Cerbydau yn cael ei gyflwyno i'r Grŵp Cynghori ar y Cyd ym mis Tachwedd cyn iddo gael ei fabwysiadu a'i weithredu. Mae system olrhain yn cael ei gosod ar bob cerbyd i ddarparu data ar ddefnydd cerbydau i ddechrau lleihau'r fflyd. Mae hyn yn rhan bwysig o'r agenda datgarboneiddio. Gellir adnabod llwybrau er mwyn archwilio cyfleoedd i rannu cerbydau ac ymchwilio i'r cerbydau mwyaf addas at y diben. Gall system olrhain gynorthwyo lle mae ymholiadau gan y cyhoedd e.e. honni bod gyrwyr yn teithio ar gyflymder gormodol.

vi. **Ni chafodd rhestr ddefnyddwyr Quartix (system olrhain cerbydau) ei hadolygu'n rheolaidd:** Mae hyn bellach wedi'i ddatrys. Hysbysir y system am ddechreuwyr newydd a therfyniadau. Mae'r system yn cael ei monitro bob chwarter i wneud yn siŵr bod gan y rhai sydd angen hynny, fynediad i Quartix. Bydd y rhai sydd ddim ei angen yn cael eu tynnu o'r rhestr.

vii. **Polisi ar oryrru:** Mae hyn wedi'i gynnwys o fewn y Polisi Olrhain Cerbydau ac yn y llawlyfrau newydd i'w dosbarthu yn fuan. Bydd manylion am sut y bydd y wybodaeth yn cael ei defnyddio, a disgwyliadau gyrwyr (a'u rheolwyr o ran sicrhau cydymffurfiaeth) nid yn unig o ran goryrru ond hefyd holl reoliadau a deddfwriaeth cod priffyrdd, yn cael eu cynnwys.

- Gofynnodd Aelod am y polisi ar gyffuriau ac alcohol, a'r meini prawf ar oryrru. Eglurwyd y byddai'r data hwn yn ôl-weithredol yn seiliedig ar wybodaeth gan system olrhain. Ni chafodd y Polisi Cyffuriau ac Alcohol ei ddatblygu gan y tîm trafnidiaeth. Mae'n bolisi corfforaethol sydd eto i'w gwblhau. Mae'n bosib y byddai profion yn cael eu gwneud yn y ganolfan pe bai achos pryder. Mae'n ddyletswydd ar yr awdurdod i adrodd unrhyw achosion goryrru i'r comisiynydd traffig. Mae disgwyl i Reolwyr

Gwasanaeth gynghori'r holl gydweithwyr ynglŷn â goryrru. Os oes nifer yr achosion yn cael eu hailadrodd, gall data olrhain gefnogi'r broses disgyblu.

- Gofynnodd yr Aelod a yw cofnodion goryrru ôl-weithredol yn dderbyniadwy i awdurdodau eraill, sut y gellir olrhain cyflymder a sut y gallai hynny fod yn berthnasol i gyflogaeth y gyrrwr. Mae'r systemau olrhain yn darparu data byw, ond byddai angen i rywun adolygu'r data; does dim rhybuddion. Bydd swyddog newydd yn cynnal gwiriadau yn erbyn y systemau olrhain ac yna'n cynghori rheolwyr unigol os yw gyrwyr yn uwch na'r terfyn cyflymder. Y bwriad yw defnyddio'r data olrhain i roi gwybod i ni am ddefnydd o'r cerbydau yn hytrach nag ymddygiad gyrwyr ond cadarnhaodd y gellir defnyddio'r data i gefnogi ymchwiliadau i ymddygiad gyrwyr gwael/goryrru parhaus. Gellir defnyddio'r data hefyd i ddiogelu gyrwyr i wirio neu wrthbrofi cwynion gan aelodau'r cyhoedd.

- Gofynnodd Aelod a oedd yna unrhyw rwystrau sy'n atal cynnydd. Eglurwyd bod canoli'r gyllideb wedi galluogi cynnydd ar argymhellion yr archwiliad. Mae gwendidau'n trosglwyddo i fod yn gryfderau. Y gobaith yw nad oes oedi cyn sicrhau bod y polisïau a'r gweithdrefnau newydd yn cael eu cymeradwyo. Pan gaiff ei gymeradwyo, bydd data'n cael ei ddefnyddio'n fwy effeithiol er mwyn hwyluso trosglwyddo i gerbydau sero net.

- Gofynnodd Aelod a oedd y Tîm Fflyd wedi'i adolygu. Mae'r tîm wedi tyfu gan ddau swyddog (Swyddog Ymchwilio i Ddamweiniau a Hyfforddiant, a Swyddog Defnyddiadau) a rhagwelir y bydd y ddwy rôl yn gwella'r gwasanaeth a ddarperir.

Croesawodd y Prif Archwilydd Mewnol yr adborth a'r sicrwydd cynhwysfawr a ddarparwyd. Mae'r adolygiad dilynol wedi'i gynnwys yn y Cynllun Archwilio ar gyfer 2022/23 (Chwarter 2/4).

Roedd y Pwyllgor yn fodlon gyda'r adborth a ddarparwyd.

**8. <u>Rhaglen Waith Archwilio Cymru: Diweddariad Cynnydd y Cyngor</u>**

Cyflwynodd y Rheolwr Mewnwelediad Perfformiad a Data adroddiad i roi diweddariad chwarterol am gynnydd y Cyngor yn erbyn Rhaglen Waith Archwilio Cymru a'i ymateb rheolwyr i argymhellion perthnasol ar gyfer adroddiadau lleol a chenedlaethol. Ar ôl cyflwyno'r adroddiad, gwahoddwyd cwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor:

- Cyfeiriodd y Cadeirydd at y sefyllfa economaidd bresennol gan bwysleisio pwysigrwydd swyddogion gan gryfhau elfennau allweddol ymhellach o'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC). Gan barhau, awgrymodd y Cadeirydd fod angen i'r CATC fod yn seiliedig ar ystod o senarios credadwy ac yn amodol ar brofion straen. Barn y Cadeirydd oedd nad oes gan y Pwyllgor ddigon o amlygrwydd dros y broses CATC o'r dechrau i'r diwedd, na dealltwriaeth o'r rhagdybiaethau gweithredol ariannol allweddol sy'n sail i'r cynllun.

  O ran arbedion arfaethedig i gyflawni cyllideb gytbwys, dywedodd y Cadeirydd ei bod yn hanfodol bod y Pwyllgor yn deall lle bydd yr arbedion cost hyn yn cael eu gwneud, ac i gael sicrwydd gan swyddogion nad yw hyn yn effeithio'n faterol ar lefelau rheolaeth fewnol, llywodraethu na materion eraill sy'n ymddangos ar ein rhaglen waith.

Bydd y Cadeirydd yn codi'r pwyntiau hyn gyda swyddogion.

Dywedodd y Dirprwy Brif Weithredwr fod lefel o sicrwydd yn cael ei roi i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio o amgylch y broses gyllideb. Y llynedd cyflwynwyd datganiad barn swyddogion A151 i'r pwyllgor cyn i'r gyllideb gael ei chymeradwyo fel y gallai'r pwyllgor dawelu meddyliau ei hun o gadernid y broses gyllidebol a digonolrwydd cronfeydd wrth gefn. Os yw'r Pwyllgor eisiau cryfhau sicrwydd, gellir sicrhau bod adroddiad y Cabinet ar gael sy'n rhoi cyd-destun ac amlinelliad o'r broses gyllideb. Yn ogystal, bydd strategaeth CATC yn cael ei chyflwyno i'r Cyngor ym mis Rhagfyr/Ionawr a gellir cyflwyno fersiwn ddrafft i'r pwyllgor.

- Nododd Aelod bod ystyried mesurau i gau bylchau yn eu cyllideb neu ragweld beth fydd yn digwydd dros y pedair blynedd nesaf yn anodd i'r pwyllgor hwn, ac fe awgrymodd y byddai'n well cynnal pwyllgorau craffu i ystyried hyn yn barhaus.

  Bydd y Cadeirydd, y Prif Archwilydd Mewnol a'r Dirprwy Brif Weithredwr yn cwrdd ddydd Llun i ystyried yn llawnach rôl y Pwyllgor wrth adolygu cynllun adfer y CATC a'r gyllideb, gyda phwyslais penodol ar sicrhau bod ei waith yn ategu un y Pwyllgor Perfformiad a Throsolwg). Ystyriwyd y dylai'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ganolbwyntio ar reolaeth a phroses wrth drafod y gyllideb i sicrhau ei hun o'r modd y nodir arbedion, sut yr asesir risg a chanlyniadau o ganlyniad i hynny a chynaliadwyedd ariannol dros y tymor canolig. Mae rhai elfennau arwahanol yn perthyn i'r pwyllgor hwn, ac eraill i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad a Throsolwg.

- Gofynnodd Aelod, gan gyfeirio at astudiaethau cenedlaethol, ble roedd yr ymateb i sero net yn ffitio yn y broses graffu. Cadarnhawyd bod yr ymateb i gynllun gweithredu strategaeth argyfwng yn yr hinsawdd yn disgyn i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad a Throsolwg.

Dywedodd y Cadeirydd, i grynhoi, fod y Pwyllgor wedi adolygu'r cynnydd a wnaed yn ofalus wrth fynd i'r afael â'r pwyntiau a wnaed gan Archwilio Cymru, ac ar y cyfan yn fodlon â'r sefyllfa bresennol gan nodi'r sylwadau a wnaed gan Aelodau.

**9. <u>Blaengynllun y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio</u>**

Nodwyd Blaengynllun Gwaith y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

- Amlygodd y Dirprwy Brif Weithredwr y risg bosibl i gau'r broses archwilio, o beidio â chwblhau'r cyfrifon, a allai effeithio ar y cyflwyniad i'r Pwyllgor ym mis Tachwedd. Roedd CIPFA yn ymgynghori â'i aelodau ac awdurdodau lleol o ran asedau seilwaith ac mae’r Bwrdd Cynghori Adrodd Ariannol wedi dod i rai casgliadau, nad ydynt yn ddefnyddiol. Mae angen i Archwilio Cymru a Llywodraeth Cymru weithio drwy rai materion ac fe allai hynny effeithio ar y broses archwilio. Gofynnwyd am ddiweddariad gan Archwilio Cymru.

- Symudwyd adroddiad Cynnydd Chwarter 3 Archwilio Mewnol o fis Mawrth i fis Chwefror 2023.

**10. <u>Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol</u>**

**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Pwyllgor Llywodraethu ac Awdit held at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Iau, 13eg Hydref, 2022 at 2.00 pm**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 8fed Medi 2022 fel cofnod cywir.

Bydd yr eitem ar yr agenda yn cael ei diwygio i "gymeradwyo" yn lle "cadarnhau" y cofnodion yn y dyfodol.

**11.** **I nodi dyddiad y cyfarfod nesaf fel y 24ain Tachwedd 2022 am 2.00pm**

**Gorffennodd y cyfarfod am 4.06 pm**